OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 Rhif 3138 (Cy.277)

# PRIFFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd Llundain I Abergwaun (YR A40) (Gwelliant Penblewin I Barc Slebets) 2008

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *8 Rhagfyr 2008* |
| *Yn dod i rym* | *17 Rhagfyr 2008* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 10, 12 a 106 o Ddeddf Priffyrdd 1980(**1**) a phob pwer galluogi arall (**2**)—

1. Daw'r briffordd newydd y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadau ei hadeiladu ar hyd y llwybr a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn yn gefnffordd o'r dyddiad pan ddaw'r Gorchymyn hwn i rym.

2. Dangosir llinell ganol y gefnffordd newydd â llinell ddu drom ar y plan a adneuwyd.

3. Bydd y darnau o'r gefnffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn ac a ddangosir â llinellau rhesog llydan ar y plan a adneuwyd yn peidio â bod yn gefnffordd ac yn dod yn ffordd ddosbarthiadol neu'n ffordd ddiddosbarth fel y dangosir yn yr Atodlen honno o'r dyddiad y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn hysbysu Cyngor Sir Benfro mai ef fydd yr awdurdod priffyrdd cyfrifol am y darnau hynny o ffordd.

4. Mae Gweinidogion Cymru wedi'u hawdurdodi i adeiladu'r bont newydd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn fel rhan o'r gwelliannau i'r gefnffordd.

5. Yn y Gorchymyn hwn:

mesurir pob mesuriad o bellter ar hyd llwybr y briffordd berthnasol;

ystyr "ffordd ddosbarthiadol" ("*classified road*"), fel dosbarthiad i briffordd yw nad yw'r briffordd yn brif

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2008 No. 3138 (W.277)

# HIGHWAYS, WALES

# The London To Fishguard Trunk Road (A40) (Penblewin To Slebech Park Improvement) Order 2008

| | |
|---|---|
| *Made* | *8 December 2008* |
| *Coming into force* | *17 December 2008* |

The Welsh Ministers make this Order in exercise of powers conferred by sections 10, 12 and 106 of the Highways Act 1980(**1**) and of all other enabling powers (**2**)—

1. The new highway which the Welsh Ministers propose to construct along the route described in Schedule 1 to this Order is to become a trunk road as from the date when this Order comes into force.

2. The centre line of the new trunk road is indicated by a heavy black line on the deposited plan.

3. The lengths of the trunk road described in Schedule 2 to this Order and shown by broad striped hatching on the deposited plan shall cease to be trunk road and shall become a classified road or unclassified road as indicated in that Schedule, from the date on which the Welsh Ministers notify the Pembrokeshire County Council that they will become the highway authority responsible for those lengths of road.

4. The Welsh Ministers are authorised to construct the new bridge specified in Schedule 3 to this Order as part of the improvements to the trunk road.

5. In this Order:

all measurements of distance are measured along the route of the relevant highway;

"the bridge plan" ("*plan y bont*") means the plan numbered HA 10/2 NAFW 20 and marked "The

ffordd at ddibenion deddfiadau neu offerynnau, sy'n cyfeirio at briffyrdd a ddosbarthwyd gan Weinidogion Cymru ac nad yw'n cyfeirio'n benodol at eu dosbarthiad fel prif ffyrdd.

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw Cefnffordd Llundain i Abergwaun (yr A40);

ystyr "y plan a adneuwyd" ("*the deposited plan*") yw'r plan sy'n dwyn y rhif HA10/2 NAFW 20 ac sydd wedi'i farcio "Gorchymyn Cefnffordd Llundain i Abergwaun (yr A40) (Gwelliant Penblewin i Barc Slebets) 2008", ac a lofnodwyd ar ran Gweinidogion Cymru ac sydd wedi'i adneuo gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru, yr Uned Storio ac Adfer Cofnodion (RSRU), Neptune Point, Ocean Way, Caerdydd; ac

ystyr "plan y bont" ("*the bridge plan*") yw'r plan sy'n dwyn y rhif HA10/2 NAFW 20 ac sydd wedi'i farcio "Gorchymyn Cefnffordd Llundain i Abergwaun (yr A40) (Gwelliant Penblewin i Barc Slebets) 2008 Atodlen 3 -Manylebion pont dros gwrs dwr mordwyol", ac a lofnodwyd ar ran Gweinidogion Cymru ac sydd wedi'i adneuo gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru, yr Uned Storio ac Adfer Cofnodion (RSRU), Neptune Point, Ocean Way, Caerdydd;

6. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 17 Rhagfyr 2008. Enw'r Gorchymyn hwn yw "Gorchymyn Cefnffordd Llundain i Abergwaun (yr A40) (Gwelliant Penblewin i Barc Slebets) 2008".

Llofnodwyd ar ran Gweinidogion Cymru

8 Rhagfyr 2008

London to Fishguard Trunk Road (A40) (Penblewin to Slebech Park Improvement) Order 2008 Schedule 3 - Specifications of bridge over navigable watercourse", signed by authority of the Minister for the Economy and Transport and deposited at the Welsh Assembly Government, Record Storage and Retrieval Unit (RSRU), Neptune Point, Ocean Way, Cardiff;

"the deposited plan" ("*y plan a adneuwyd*") means the plan numbered HA10/2 NAFW 19 and marked "The London to Fishguard Trunk Road (A40) (Penblewin to Slebech Park Improvement) Order 2008", signed by authority of the Minister for the Economy and Transport and deposited at the Welsh Assembly Government, Record Storage and Retrieval Unit (RSRU), Neptune Point, Ocean Way, Cardiff;

"the trunk road" ("*y gefnffordd*") means the London to Fishguard Trunk Road (A40); and

"classified road" ("*ffordd ddosbarthiadol*") as a classification for a highway, means that the highway is not a principal road for the purpose of enactments or instruments, which refer to highways classified by the Welsh Ministers and which does not specifically refer to their classification as principal roads.

6. This Order comes into force on 17 December 2008 The title to this Order is "The London to Fishguard Trunk Road (A40) (Penblewin to Slebech Park Improvement) Order 2008."

Signed under authority of the Minister for the Economy and Transport.

8 December 2008

*S. C. SHOULER*

Cyfarwyddwr Cynllunio a Gweinyddu Trafnidiaeth
Llywodraeth Cynulliad Cymru

Director of Transport Planning and Administration
Welsh Assembly Government

(*1*) 1980 p.66.

(*2*) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(*1*) 1980 c.66.

(*2*) By virtue of S.I. 1999/672, article 2 and Schedule 1, and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006, these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

# YR ATODLENNI

## ATODLEN 1

## LLWYBR Y GEFNFFORDD NEWYDD

O bwynt ar y gefnffordd 58 o fetrau i'r de ddwyrain o'i chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth sy'n arwain i Lawhaden ac sy'n dwyn y cyfeirnod A ar y plan a adneuwyd, ac sy'n cynnwys cylchfan 292 o fetrau i'r de ddwyrain o'i chyffordd â'r A4075, ac ail gylchfan 278 o fetrau i'r de ddwyrain o'i cyffordd â'r B4313, am bellter o 2.67 o gilometrau, hyd at bwynt ar y gefnffordd 420 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â'r B4314 ac sy'n dwyn y cyfeirnod B ar y plan a adneuwyd.

## ATODLEN 2

## DARNAU O GEFNFFORDD YR A40 SY'N PEIDIO Â BOD YN GEFNFFORDD

Y darnau hynny o gefnffordd yr A40 sy'n peidio â bod yn gefnffordd yw'r darnau hynny rhwng ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth sy'n arwain i Lawhaden a'i chyffordd â Flimstone Lane rhwng Penblewin a Slebets yn Sir Benfro sef:

(i) o bwynt ar y gefnffordd 53 o fetrau i'r de ddwyrain o'i chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth sy'n arwain i Lawhaden ac sy'n dwyn y cyfeirnod C ar y plan a adneuwyd, pellter cyfan o 0.53 o gilometrau hyd at bwynt ar y gefnffordd 305 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â'r A4075 ac sy'n dwyn y cyfeirnod D ar y plan a adneuwyd fydd yn dod yn ffordd ddiddosbarth, a

(ii) o bwynt ar y gefnffordd 337 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â'r A4075 ac sy'n dwyn y cyfeirnod E ar y plan a adneuwyd, am bellter cyfan o 1.91 o gilometrau hyd at bwynt ar y gefnffordd 245 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â'r B4314 ac sy'n dwyn y cyfeirnod F ar y plan a adneuwyd fydd yn dod yn ffordd ddosbarthiadol.

# SCHEDULES

## SCHEDULE 1

## ROUTE OF THE NEW TRUNK ROAD

From a point on the trunk road 58 metres south east of its junction with the unclassified road leading to Llawhaden and given the reference A on the deposited plan, and incorporating a roundabout 292 metres south east of its junction with the A4075, and a second roundabout 278 metres south east of its junction with the B4314, for a total distance of 2.67 kilometres, to a point on the trunk road 420 metres east of its junction with the B4314 and given the reference B on the deposited plan.

## SCHEDULE 2

## LENGTHS OF THE A40 TRUNK ROAD CEASING TO BE TRUNK ROAD

Those lengths of the A40 trunk road ceasing to be trunk road are those lengths between its junction with the unclassified road leading to Llawhaden and its junction with Flimstone Lane between Penblewin and Slebech Park in the County of Pembrokeshire as follows:

(i) from a point on the trunk road 53 metres south east of its junction with the unclassified road leading to Llawhaden and given the reference C on the deposited plan, for a total distance of 0.53 kilometres to a point on the trunk road 305 metres east of its junction with the A4075 and given the reference D on the deposited plan which shall become an unclassified road, and

(ii) from a point on the trunk road 337 metres east of its junction with the A4075 and given the reference E on the deposited plan, for a total distance of 1.91 kilometres to a point on the trunk road 245 metres east of its junction with the B4314 and given the reference F on the deposited plan which shall become a classified road.

## ATODLEN 3

## MANYLEBION PONT DROS GWRS DW^R MORDWYOL

Pont newydd dros y cwrs dwr mordwyol a elwir afon Cleddau Ddu yng nghymuned Llawhaden yn gyfagos i adeiledd y bont bresennol dros yr A40 yn Canaston Bridge a phellter clir o 12 o fetrau i'r de ohoni, 1.8 o gilometrau i'r gorllewin o Robeston Wathen, y dangosir ei lleoliad a'i dyluniad cyffredinol ar blan y bont.

## SCHEDULE 3

## SPECIFICATIONS OF BRIDGE OVER NAVIGABLE WATERCOURSE

A new bridge over the navigable waterway known as the Eastern Cleddau in the community of Llawhaden in the County of Pembrokeshire adjacent to and a clear distance of 12 metres south of the existing A40 Canaston Bridge structure, 1.8 kilometres west of Robeston Wathen, the location and general design of which are shown on the bridge plan.


© Hawlfraint y Goron 2009

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2009

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.


# GORCHYMYN CEFNFFORDD LLUNDAIN I ABERGWAUN (A40) (GWELLIANT PENBLEWIN I BARC SLEBETS) 200- **ATODLEN 3**
# - MANYLEBAU PONT DROS GWRS DŴR MORDWYOL
# THE LONDON TO FISHGUARD TRUNK ROAD (A40) (PENBLEWIN TO SLEBECH PARK IMPROVEMENT) ORDER 200- **SCHEDULE 3**
# - SPECIFICATIONS OF BRIDGE OVER NAVIGABLE WATERCOURSE




CYNLLUN O'R BONT/PLAN OF BRIDGE

20 0 20 40 metrau/metres
50 0 50 100 troedfeddi/feet

Graddfa/Scale 1:1000




Y CYNLLUN ALLWEDDOL/KEY PLAN

0 100 200 300 metrau/metres
0 300 600 900 troedfeddi/feet

Graddfa/Scale 1:10,000

PLANIAU A MANYLEBAU'R BONT NEWYDD DROS AFON CLEDDAU DDU,
–GWELLIANT PENBLEWIN I BARC SLEBETS
PLANS AND SPECIFICATIONS OF NEW BRIDGE OVER THE EASTERN CLEDDAU RIVER,
–A40 PENBLEWIN TO SLEBECH PARK IMPROVEMENT

MANYLEBAU/SPECIFICATIONS

PWYNTIAU DECHRAU A DIWEDD :
O BWYNT AR Y LAN DWYRAIN (CYFEIRNOD GRID E206689.855/N215154.486)
RHYW 36m O BENTAN DWYRAIN LINELL GANOL Y BONT BRESENNOL, HYD AT BWYNT AR Y LAN GORLLEWIN (CYFEIRNOD GRID E206657.405/N215162.469)
RHYW 44m O BENTAN GORLLEWIN LINELL GANOL Y BONT BRESENNOL.
(MAE'R CYFEIRNODAU GRID AT GRID CENEDLAETHOL PRYDAIN FEL Y'U DANGOSIR AR DDALEN YR AROLWG ORDNANS SN0615)


POINTS OF COMMENCEMENT AND TERMINATION :
FROM A POINT ON THE EAST BANK
(GRID REFERENCE E206689.855/N215154.486)
APPROX 36m FROM THE EAST ABUTMENT OF THE EXISTING BRIDGE CENTRELINE TO A POINT ON THE WEST BANK (GRID REFERENCE E206657.405/N215162.469)
APPROX 44m FROM THE WEST ABUTMENT OF THE EXISTING BRIDGE CENTRELINE.
(GRID REFERENCES ARE TO BRITISH NATIONAL GRID REFERENCES AS SHOWN ON ORDNANCE SURVEY SHEET SN0615)

RHYCHWANT/SPAN

RHYCHWANT SGIW CLIR/CLEAR SKEW SPAN 33.00m
RHYCHWANT SGWÂR CLIR/CLEAR SQUARE SPAN 24.90m

RHYCHWANT SGIW CLIR = 33.0m
RHYCHWANT SGWÂR CLIR = 24.90m
LEFEL ISAF ARFAETHEDIG SOFFIT Y BONT 10.07m UWCHLAW'R DATWM ORDNANS.
CLIRIANT ISAF O LEFEL LLANW UCHAF CYMEDRIG Y GWANWYN HYD AT SOFFIT Y BONT = 6.78m.
SYLWER: MAE LEFEL GWELY'R AFON UWCHBEN LEFEL LLANW UCHAF CYMEDRIG Y GWANWYN YN LLEOLIAD ARFAETHEDIG Y BONT. MAE'R TERFYNAU MORDWYADWY YN CAEL EU RHEOLI'N EFFEITHIOL 345m I LAWR YR AFON O'R BONT ARFAETHEDIG GAN GORED GERLLAW'R GWAITH TYNNU DŴR.

CLEAR SKEW SPAN = 33.0m
CLEAR SQUARE SPAN = 24.90m
PROPOSED BRIDGE LOWEST SOFFIT LEVEL 10.070m AOD
MINIMUM CLEARANCE FROM M.H.W.S.T. LEVEL TO SOFFIT OF BRIDGE = 6.78m
NOTE: THE RIVER BED LEVEL IS ABOVE THE M.H.W.S.T. LEVEL AT THE PROPOSED BRIDGE LOCATION. NAVIGABLE LIMITS ARE EFFECTIVELY CONTROLLED 345m DOWNSTREAM OF THE PROPOSED BRIDGE BY A WEIR ADJACENT TO THE WATER ABSTRACTION WORKS.




GOLWG O'R BONT GAN EDRYCH TUA'R GOGLEDD
ELEVATION OF BRIDGE LOOKING NORTH

10 0 10 20 metrau/metres
20 0 20 40 60 troedfeddi/feet

Graddfa/Scale 1:500


Atgynhyrchwyd o fap yr Arolwg Ordnans 1:2,500 gyda chaniatâd Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi, ⓒ Hawlfraint y Goron.
Rhif Trwydded GD100017916

Reproduced from the Ordnance Survey 1:2,500 map with the permission of the Controller of Her Majesty's Stationery Office, ⓒ Crown Copyright.
Licence Number GD100017916


**RHIF Y CYNLLUN / PLAN No. HA10/2 NAFW 20**

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

## 2008 Rhif 3138 (Cy.277)

## PRIFFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd Llundain I Abergwaun (YR A40) (Gwelliant Penblewin I Barc Slebets) 2008

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

## 2008 No. 3138 (W.277)

## HIGHWAYS, WALES

## The London To Fishguard Trunk Road (A40) (Penblewin To Slebech Park Improvement) Order 2008

**£5.00**

W315/01/09 ON